Papur y Bwrdd

3 Ebrill 2014

Teitl y Papur	**DULL STRATEGOL AR GYFER CYLLID PARTNERIAETHAU**
Cyfeirnod y Papur:	NRW B O 25.14
Noddwyd y Papur gan: **Awduron y Papur yw:**	Ceri Davies (Cyfarwyddwr Gweithredol dros Wybodaeth, Strategaeth a Chynllunio) Emyr Thomas, Charlotte Barnet, Helga Dixon, Rhian Jones, Rhian Jardine a Meinir Wigley.

Pwrpas y Papur:	Cynnig dull strategol tuag at gyllid partneriaethau ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru
Argymhelliad:	Bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r dull a amlinellwyd yn y papur hwn a'r camau nesaf o ddatblygu cynlluniau manwl a chynllun cyfathrebu.
Angen Penderfyniad:	Cytuno a chymeradwyo'r dull a amlinellwyd.

Effaith:	**Effaith ar yr amgylchedd**: Bydd Cyllid Partneriaethau Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i gyfeirio tuag at gyflawni canlyniadau ac allbynnau amgylcheddol a hyrwyddo mabwysiadu systemau rheoli amgylcheddol. **Effaith ar yr economi**: Bydd offerynnau ar gyfer meithrin ymyriadau sy'n cynhyrchu buddion economaidd yn cael eu hintegreiddio i Gyllid Partneriaethau Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn ychwanegol, bydd Cyllid Partneriaethau yn ysgogi arian cyfatebol sy'n cynyddu lefelau o gyflogaeth uniongyrchol, prynu nwyddau a gwasanaethau a gwaith cyfalaf. **Effaith ar y gymuned**: Gellir defnyddio Cyllid Partneriaethau i wneud gwaith ymgysylltu gyda'r gymuned ynghylch materion amgylcheddol. Gall darparu cefnogaeth ariannol i sefydliadau eraill fod yn ffordd effeithiol o sicrhau ymyriadau sy'n cynhyrchu buddion cymdeithasol ar gyfer cymunedau difreintiedig. **Effaith ar wybodaeth**: Bydd Cyllid Partneriaethau yn cael ei ddefnyddio i gael gafael ar wasanaethau gwybodaeth, megis casglu a storio data, y ddau yn berthnasol ac yn bwysig i weithgareddau Cyfoeth Naturiol Cymru.

DULL STRATEGOL AR GYFER CYLLID PARTNERIAETHAU CNC

Pynciau

1. Roedd pob un o'r tri chorff etifeddol yn cyflawni rhai o'u hamcanion corfforaethol drwy gyllido partneriaid allanol i wneud gwaith ar eu 'hystâd' ac oddi ar eu 'hystâd'. (Mae graddfa'r cyllid hwnnw wedi'i ddangos yn Atodiad 1). Wrth sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru, gyda chyfres newydd o amcanion corfforaethol a blaenoriaethau gwahanol, mae angen dull strategol er mwyn sicrhau bod cyllid partneriaethau yn cael ei alinio i'r blaenoriaethau newydd hyn.

2. Mae'r papur hwn a'i atodiadau yn amlinellu dull cyllid partneriaethau ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru.

Crynodeb

3. Cyllid Partneriaethau yw unrhyw gyllid a delir i sefydliadau trydydd parti i'w cefnogi neu i'w galluogi i gyflawni allbynnau neu gael canlyniadau sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag amcanion corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru fel yr amlinellwyd yn ein Cynllun Corfforaethol a Busnes. Nid yw sefydliad sy'n cyflawni gwasanaeth am gyfraddau'r farchnad yn darparu unrhyw arian na chyfraniad mewn nwyddau i brosiect; nid yw wedi ymgysylltu mewn partneriaeth ac felly nid yw'n berthnasol i'r dull hwn (ond i brosesau caffael safonol).

4. Mae'r meysydd gwaith gyda blaenoriaeth ar gyfer cyllid partneriaethau gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu manylu yn Atodiad 3 sy'n cael ei sbarduno gan ein Cynllun Corfforaethol a Busnes.

5. Prif faterion allweddol ein dull yw:
   - Byddwn yn sefydliad cyllido gyda chyllideb bwrpasol ar gyfer cyllid partneriaethau am y tair blynedd nesaf.
   - Byddwn yn dosbarthu'r gyllideb hon mewn dwy ffordd – drwy ddulliau gweithio ar y cyd a thrwy rowndiau cystadleuol wedi'u targedu.
   - Byddwn yn cymryd dull seiliedig ar risg tuag at y broses gyllido a byddwn yn symleiddio'r broses lle y gallwn.
   - Bydd gennym isafswm lefel cyllido o £10k er mwyn cyfyngu ar gostau gweinyddol o wasanaethu lefelau is o gyllid.
   - Bydd disgwyliad y bydd y sefydliad sy'n derbyn cyllid yn rhoi arian cyfatebol at gyfraniad Cyfoeth Naturiol Cymru (un ai mewn arian neu mewn nwyddau).
   - Byddwn fel arfer yn darparu cyllid ar gyfer prosiectau neu ar gyfer cyflawni uniongyrchol yn unig. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo'r swyddogaeth am gyllid craidd ar gyfer sefydliadau perthnasol.

Cefndir

6. Cyn sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru, roedd pob un o'r tri chorff etifeddol (AAC, CCG a'r CCC) yn cyflawni rhai o'u hamcanion drwy gyllido partneriaid allanol. Mae Atodiad 1 yn cynnig trosolwg o werth ariannol cyllid ar gyfer partneriaid yn ystod 2013-14, cyfnod sy'n adlewyrchu'r etifeddiaeth o'r ymrwymiadau a wnaed gan y sefydliadau etifeddol.

7. Roedd y tri chorff etifeddol yn defnyddio dulliau gwahanol i gyllido partneriaid allanol a gellir eu categoreiddio'n fras fel **dyfarniadau/grantiau cystadleuol** (wedi'u cyfeirio at brosiectau arwahanol gydag allbynnau wedi'u targedu) a **grantiau strategol/MoG**[1] (sy'n cynnwys ymrwymiadau hirdymor i weithio tuag at ganlyniadau penodedig ar y cyd). Roedd offerynnau ariannol eraill, fel cytundebau rheoli, yn cael eu defnyddio yn ogystal, ond maen nhw y tu allan i gwmpas yr arolwg hwn.

8. Tra bod cyllid wedi'i gytuno gydag amrediad o gyrff yn cynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau trydydd sector, rheolwyr tir a dŵr a grwpiau cymunedol, nid oedd gan y cyrff etifeddol system o dracio a chofnodi gwybodaeth perfformiad ar lefel rhaglen. Gellid cael manylion am gyflawniad yn unig drwy archwilio ffeiliau â llaw achos wrth achos o gyfanswm allbynnau lefel y prosiect.

9. Yn hydref 2013, nododd y Tîm Gweithredol yr angen i wneud arbedion ariannol drwy holl feysydd y busnes yn 2014/15 a chymerwyd penderfyniad i:

- leihau grant y cyn-Gyngor Cefn Gwlad i awdurdodau lleol o £150,000;
- canslo'r cynllun cystadleuol blynyddol £600,000 ar gyfer 14/15;
- dod o hyd i £250,000 o arbedion o gyllid partneriaeth y cyn-AAC.

Mae Atodiad 1 yn cynnig trosolwg o werth ariannol cyllid i bartneriaid yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a'r blynyddoedd ariannol nesaf.

10. Cytunodd y Tîm Gweithredol y dylid gwneud adolygiad sylfaenol o grantiau a chyllid partneriaethau Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol 2013/14. Pwrpas yr Adolygiad oedd ateb y cwestiynau canlynol:

- Pa un o'n hamcanion sy'n cael ei gyflawni yn y modd mwyaf priodol drwy gyllid partneriaethau?
- Beth ddylai pwrpas, cwmpas a blaenoriaethau cyllid partneriaethau fod?
- Sut y gallwn drefnu cyllid partneriaethau yn y ffordd orau er mwyn sicrhau aliniad strategol da, llywodraethu a fforddiadwyedd ar gyfer y dyfodol?

Cyd-destun

11. Gwahoddwyd adborth gan y rhai hynny gyda phrofiad hirdymor o weithio mewn partneriaeth. Derbyniwyd ymatebion gan 81 o bartneriaid allanol a 57 ymarferwyr mewnol. Y rhain yw'r prif bwyntiau o ddadansoddi'r adborth:

- rhoddir gwerth mawr ar weithio mewn partneriaeth gan bawb sydd ynghlwm;
- mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ennill allbynnau a chanlyniadau sylweddol o gyllid partneriaethau, ar draws ei gylch gwaith, mae'n ysgogi adnoddau ychwanegol;
- mae angen cyllid dros 3 – 5 mlynedd er mwyn cyflawni gwaith strategol;
- mae diffyg allbynnau safonol ar lefel y rhaglen, er mwyn tynnu sylw ac asesu cyflawniad y cyllid fel cyfanrwydd;

[1] Mae Memoranda o Gytundeb (MoG) yn ddogfennau sy'n amlinellu telerau cytundeb sy'n cynnwys cydweithio tuag at gyd-ganlyniadau (e.e. manylion am faint o gyllid sydd i'w ddarparu gan un neu fwy o bartïon, amodau, datganiad o'r canlyniadau a geisir, ayyb). Mae 'llythyr cynnig grant' yn ddogfen debyg, ond mae'r term 'grant' yn cael ei ddefnyddio fel arfer mewn cysylltiad ag ymateb i gais gan gorff allanol am gyllid ar gyfer prosiect penodol gyda thargedau penodol. Mae'r terminoleg wedi'i gymhlethu ymhellach gan y ffaith bod rhai sefydliadau (fel CCG) yn defnyddio'r cysyniad o 'grant strategol' i nodi perthynas sydd yn y canol rhwng cytundeb cydweithio llawn a grant ar gyfer prosiect.

– mae angen i brosesau cyllid partneriaethau Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn fwy syml a chymesur.

Defnyddiwyd yr adborth hwn er mwyn llunio'r argymhellion yn y papur hwn.

12. Wrth wneud yr adolygiad, gwnaethom ystyried dulliau cyllido eraill amrywiol a rhoddir crynodeb o'r rhain isod:

- Mae *Natural England* (NE) yn gweithredu amrediad o grantiau cystadleuol a thaliadau dewisol sy'n newid ac yn addasu i flaenoriaethau NE a'r polisi amgylcheddol. Maen nhw'n gweithredu gydag amserlenni a chyfraddau ymyrraeth amrywiol. Yn ogystal, mae ganddyn nhw £5miliwn mewn cytundebau MoG lle mae'r partner a ddewiswyd yr unig sefydliad a all gyflawni darn o waith. Mae proses tendr sengl *ffurfiol* yn cael ei defnyddio yn yr achosion hyn er mwyn sicrhau bod cytundebau nid yn unig yn rhoi gwerth am arian, ond o fewn terfynau gonestrwydd yn ogystal.

- Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn canolbwyntio ar 'dreftadaeth', wedi'i ddiffinio'n fras iawn i gwmpasu tir a bioamrywiaeth. Yn ei *Fframwaith Strategol 2013-18*, mae'n anelu i ymroi 75% o gyllid i raglenni agored (lle mae sefydliadau yn diffinio ac yn cyflawni prosiectau y maen nhw'n eu hystyried y byddan nhw'n ymdrin ag anghenion treftadaeth allweddol) a 25% i raglenni wedi'u targedu sy'n canolbwyntio ar anghenion a nodwyd yn ei ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid.

- Mae'r Loteri Fawr yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na gweithgareddau ac allbynnau ac mae'n cynnig amrediad o gronfeydd, rhai drwy'r DU i gyd a rhai yn benodol i Gymru, wedi'u hanelu at roi budd i unigolion a chymunedau. Yn ei *Fframwaith Strategol hyd at 2015* mae'n anelu at gyflawni: grantiau bychain, dulliau cyllido agored ac wedi'u targedu. Gellir defnyddio rhai elfennau o'u cyllid ar gyfer gwaith yn yr amgylcheddau naturiol ac adeiledig.

- Mae'r *Gronfa Datblygu Cynaliadwy* yn gweithredu yn y Parciau Cenedlaethol a'r AHNEau. Mae'n gronfa gystadleuol ar gyfer gweithgareddau datblygu cynaliadwy yn yr ardaloedd daearyddol hyn. Mae'n agored i'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, ac yn derbyn ceisiadau ar gyfer amrediad o werthoedd (o ychydig o gannoedd i lawer o filoedd o bunnoedd), ac yn cynnig cyfradd ymyrraeth o 50%. Mae'r gyllideb flynyddol tua £350k ar gyfer y cyfan o'r ardaloedd AHNE a £100k ar gyfer pob ardal o Barc Cenedlaethol.

- Mae *Amgylchedd Cymru* yn gweithredu pum ffrwd grant gystadleuol i gefnogi sefydliadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol sy'n ymgymryd â phrosiectau ymarferol sy'n cyflawni gweithgareddau datblygu cynaliadwy. Uchafswm y grant sydd ar gael yw £12,000 ac uchafswm yr amserlen yw 6 mlynedd ar gyfradd ymyrraeth amrywiol. Yn 2013/14 gwnaethon nhw ddyfarnu £644,404.

- Roedd *Cymunedau a Natur* (CAN), y prosiect strategol wedi'i gyllido gan y UE, yn ymwneud â datblygu model o osod amcanion a gwahodd atebion cyflawni ar sail gystadleuol. Ond roedd y cyfnod cystadleuol yn seiliedig ar ymgynghoriad blaenorol gydag ymarferwyr yn y maes, er mwyn adnabod problemau ac atebion. Cafodd y

model hwn ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a bu'n gyfrwng a gafodd ei brofi o ddosbarthu cyllid i amrediad o sefydliadau eraill wedi'i alinio i gyfres sengl o amcanion cyffredinol wedi'u cydweddu i gyd-destunau cymunedol arbennig.

- Mae'r *Gronfa Natur* £6 miliwn (Llywodraeth Cymru) yn cael ei sefydlu er mwyn cyllido camau gweithredu ar lefel y dirwedd sy'n fwy cydweithredol ac effeithiol ac sy'n creu budd i natur, ac ar yr un pryd, yn cyflawni buddion eglur ar gyfer cymunedau a'r economi. Mae 'galw am syniadau' gan y Gronfa Natur yn wahanol i'r dull arferol o gyllido, lle byddai gofyn i randdeiliaid ymateb i gyfres ddiffiniedig o feini prawf. Er mwyn deall y problemau allweddol a'r atebion posibl i'r dirywiad yng nghyflwr natur yng Nghymru yn well, gofynnwyd i'r rhai hynny sydd ynghlwm mewn rheoli adnoddau naturiol am syniadau am gamau gweithredu ymarferol a fydd o fudd i natur, creu cyfleoedd ar gyfer swyddi ac incwm newydd a chefnogi cymunedau lleol. Mae Grŵp Ymgynghorol y Gronfa Natur (GYGN) wedi cael ei sefydlu i arolygu cyflawni'r Gronfa Natur. Bydd cyhoeddiad ar y rhaglen i symud y Gronfa Natur ymlaen yn cael ei wneud ddiwedd Mawrth.

13. **Mae'r cyd-destun presennol yn un dynamig a bydd angen i Cyfoeth Naturiol Cymru ymgorffori hyblygrwydd i'w dull cyffredinol.** Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd mae rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn cynnwys nifer o Filiau a fydd yn berthnasol i Cyfoeth Naturiol Cymru, yn arbennig felly, Bil yr Amgylchedd a'r angen am ddull mwy integredig i reoli adnoddau naturiol. Yn ychwanegol, mae Llywodraeth Cymru ei hun yn gwneud adolygiad o grantiau. Gall hyn arwain at Lywodraeth Cymru yn ysgwyddo cyllid craidd ar gyfer rhai sefydliadau. Mae cyllid llywodraeth leol yn un maes y gall Llywodraeth Cymru ei ysgwyddo, gan leihau cyllideb CNC yn unol â hynny. Ond lle mae Llywodraeth Cymru yn cyllido cyflawni'n uniongyrchol, mae'n debygol o drosglwyddo hyn i Cyfoeth Naturiol Cymru gyda'r cyllid sy'n gysylltiedig ag ef. Ymhellach, bydd cydlynu agosach dros beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei gyllido a beth mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei gyllido.

14. **Mae Llywodraeth Cymru yn gweld grantiau fel un yn unig o gyfres o offerynnau sydd ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru,** o bosibl un y gellid ei ddefnyddio i lenwi bylchau mewn sgiliau yn y sefydliad. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru archwilio pa sefydliadau eraill all gyflawni amcanion Cyfoeth Naturiol Cymru (un ai drwy gaffael neu grant). Mae'n dymuno i Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried a oes sefydliadau eraill mewn gwell sefyllfa i gyflawni rhai o'i amcanion. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn edrych yn fwy eang ar sut y gallai hi ac eraill ddefnyddio cyllid er mwyn cefnogi cyflawni a beth ddylai'r mecanweithiau priodol fod. Mae cyllid cystadleuol yn un mecanwaith arbennig - ac yn un y mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio'n benodol ei drawsnewid yn y dull tuag at y Gronfa Natur.

Y Dull

15. ***Aliniad Strategol -*** Dylai cyllid partneriaethau gael ei ysgogi gan Gynlluniau Corfforaethol a Busnes Cyfoeth Naturiol Cymru*.* Mae'r blaenoriaethau sy'n gymwys ar gyfer cyllid partneriaethau o CNC yn cael eu manylu yn Atodiad 3. Mae hon yn ddogfen allweddol sy'n rhestru'r mannau gwaith a fydd yn gymwys ar gyfer cyllid a gweld sut y mae'r rhain yn deillio o Gynllun Busnes Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r dull hwn yn darparu 'edefyn aur' sy'n cysylltu pob prosiect unigol a gyllidwyd at ein hamcanion corfforaethol.

16. Bydd cyfres o **allbynnau safonol** sy'n gymwys i gynllun busnes Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu dyfeisio i'w defnyddio ar gyfer dibenion monitro ac i nodi'r cyflawniadau a wnaed drwy gyllid partneriaethau. Bydd y dull hwn yn hanfodol er mwyn gwneud canlyniadau pob prosiect yn eglur a sut roedd wedi cyfrannu at Gynllun Corfforaethol ac amcanion corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru.

Y Strwythur:

17. ***Strwythur*** – Bydd ein cyllid partneriaethau yn cynnwys:

a) **Partneriaethau cydweithio** – Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydweithio gyda sefydliadau eraill ar raglen neu brosiect gyda chanlyniadau strategol y mae'r holl bartneriaid yn eu rhannu. (NG: Mae'r mecanwaith hwn yn debygol o fod o bwysigrwydd arbennig yn y symudiad tuag at ddull seiliedig ar gynllunio ardal). Amlinellir y mathau o waith i'w cyllido drwy bartneriaethau Cydweithio yng ngholofn 6 o Atodiad 3.

b) Cyfleoedd **cyllido cystadleuol** ar gyfer trydydd parti i gynnig am gyllid i Cyfoeth Naturiol Cymru lle mae ganddyn nhw syniadau sy'n gysylltiedig â chyflawni tuag at Gynllun Corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru drwy weithredu prosiectau gwahanol gydag allbynnau, canlyniadau ac effeithiau eglur a chyfnod eglur. Gobeithir y bydd y dull hwn yn creu atebion arloesol ac ni fydd yn rhy argymhellol yn y mathau o brosiectau a fydd yn cael eu cyllido. Amlinellir y mathau o waith sydd i'w cyllido drwy Bartneriaethau Cystadleuol yng ngholofn 7 o Atodiad 3.

c) **Cefnogaeth Arian Gyfatebol** - i alluogi prosiectau da sy'n denu cronfeydd ychwanegol i'r sector amgylcheddol (e.e. o Ewrop neu Gronfa Dreftadaeth y Loteri) i fynd yn eu blaen. Ni fydd gan y maes hwn gronfa benodol, ond bydd yn cael ei asesu o fewn a) a b) uchod. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu y bydd ambell waith yn angenrheidiol i ymuno ar y cychwyn ar rai o'r prosiectau hyn tra'u bod yn datblygu, yn hytrach na disgwyl i rownd gystadleuol nesaf Cyfoeth Naturiol Cymru i agor. Ond lle mae rownd gystadleuol yn rhedeg, yna honno fydd y llwybr a ffefrir i ystyried ceisiadau am gyllid cyfatebol gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

18. Bydd gan gyllid sydd wedi'i neilltuo lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu fel rheolwr-ddosbarthwr ar ran eraill (e.e. Sblash; Llwybr Arfordirol Cymru; Cymunedau a Natur; Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr; Cronfa Cydnerthedd Ecosystemau) anghenion penodol. Fodd bynnag, bydd y cynlluniau'n cael eu gweinyddu yn unol â'r egwyddorion strategol a gweithredol isod.

19. ***Cyllideb*** - Efallai bydd cyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru dros y tair blynedd nesaf i gefnogi sefydliadau eraill sydd mewn sefyllfa dda i gyflawni allbynnau sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag amcanion corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei gynyddu ymhellach drwy gyllidebau refeniw'r adrannau.

20. ***Cyllid Cystadleuol -*** Mae Cyllid Cystadleuol yn cynnig ffocws wedi'i dargedu, yn hyrwyddo hyblygrwydd ac yn lleihau dibyniaeth ar Cyfoeth Naturiol Cymru fel ffynhonnell gyllid. Dros y tair blynedd nesaf bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio elfen o'i gyllideb Cyllid Partneriaethau ar gyfer rowndiau Cyllid Cystadleuol sy'n gwahodd sefydliadau eraill i gyflwyno atebion cyflawni sy'n:

- canolbwyntio ar ganlyniadau amgylcheddol a'r cynhyrchion y mae Cyfoeth Naturiol Cymru eu hangen - gweler colofn 7 o Atodiad 3.

- hyd at 3 blynedd o hyd, yn unol â phroses gyflawni ein Cynllun Corfforaethol, a chyda chynllun ymadael eglur o fewn y ffrâm amser hon
- ar raddfa sydd angen mwy na £10k o gyllid gan Cyfoeth Naturiol Cymru (ni wneir dyfarniadau o lai na £10k)
- yn cynnwys cyfraniad sylweddol o arian cyfatebol o ffynonellau eraill, yn cynnwys y sefydliad sy'n gwneud y cais (o leiaf 50% fel arfer).
- adeiladu rhaglen o weithgaredd ar adnabod problemau allweddol ac atebion posibl ymlaen llaw gan y rhai hynny sy'n ymwneud â rheoli adnoddau naturiol, sydd wedyn yn integreiddio syniadau a dderbyniwyd i gamau gweithredu cydweithredol cydgysylltiedig.

21. Mae'r **meini prawf ar gyfer dethol** sydd i'w defnyddio i ddewis cynigion ar gyfer Cyllid Cystadleuol yn parhau i fod yn amodol ar ddatblygu, ond gallan nhw gynnwys asesiad, fel bo'n briodol, o sut y gallan nhw:

- Gyflawni gwerth i flaenoriaethau Cyfoeth Naturiol Cymru (gweler colofn 7 o Atodiad 3)
- Mwyhau buddion economaidd – drwy ddefnyddio'r model economaidd a ddatblygwyd gan Ysgol Fusnes Caerdydd
- Mwyhau buddion economaidd ar gyfer cymunedau (drwy ddysgu oddi wrth CAN ar dargedu buddion).
- Mwyhau buddion cymdeithasol (drwy ddysgu oddi wrth CAN ar gynnwys darpariaethau ar gyfer grwpiau difreintiedig)
- Cynnwys Ymgysylltu â'r Gymuned a grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd (ymarfer gorau *Dewch Allan!)*
- Ysgogi cydweithio strategol rhwng sefydliadau yn hytrach na chynigion gan sefydliadau sengl
- Cyflawni buddion i bobl drwy'u cysylltu yn gorfforol ac yn nhermau gwybodaeth ac ymwybyddiaeth, â'r amgylchedd.

Monitro a Gwerthuso Strategol

22. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn:

- gwerthuso ei Strategaeth Cyllid Partneriaethau bob tair blynedd, ac yn unol â chyfnod pob Cynllun Corfforaethol, ystyried sut y mae wedi gwneud gwahaniaeth wrth gwrdd ag amcanion a chanlyniadau corfforaethol; a yw'n teilyngu cyllid ychwanegol; a oes angen newid blaenoriaethau a dulliau; pa newidiadau sydd wedi digwydd yn y maes.
- monitro sut mae'i raglen o gyllid partneriaethau yn cyfrannu tuag at amcanion corfforaethol drwy gydol y flwyddyn ac adrodd ar hyn yn flynyddol.
- gwerthuso prosiectau unigol a/neu fathau o ymyrraeth er mwyn deall, dysgu a hyrwyddo ymarfer da a'u hymgorffori mewn camau gweithredu yn y dyfodol.

23. ***Egwyddorion Strategol i Lywodraethu'r Camau Gweithredu*** – Bydd yr egwyddorion lefel uchel canlynol yn llywodraethu gweithrediad bras cyllid partneriaethau Cyfoeth Naturiol Cymru:

- Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ddefnyddio cyllid partneriaethau i hwyluso cyflawni'r canlyniadau hynny sydd wedi'u rhannu gyda Llywodraeth Cymru na all CNC eu cyflawni ar ei ben ei hun.
- Dylai cyllid partneriaethau Cyfoeth Naturiol Cymru gael ei sbarduno gan flaenoriaethau corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru.

- Dylai cyllid partneriaethau gael gwerth etifeddol (h.y. unwaith y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi tynnu allan) gyda chanlyniadau corfforol, amgylcheddol ac ymddygiadol gwirioneddol a chynaliadwy.
- Ni ddylid cychwyn ar unrhyw gyllid partneriaeth heb strategaeth ymadael eglur a threfniadau ymadael eglur.
- Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ymgorffori gwerth cymdeithasol drwy ei gyllid partneriaethau neu drwy fuddion i'r cymunedau lleol fel creu neu gefnogi swyddi a mentrau lleol neu drwy ymgysylltiad â'r gymuned a gwirfoddolwyr.
- Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru gael portffolio o brosiectau partneriaeth, bod yn seiliedig ar risg ac annog dulliau arloesol neu wahanol.

24. ***Grantiau neu ddyfarniadau o dan £10k –*** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried dull partner arweiniol fel rhan o'r broses gystadleuol, a allai ddod â sefydliadau llai ynghyd er mwyn cyflawni gwaith. Adeiladu ar y profiad a enillwyd drwy brosiect strategol *Cymunedau a Natur* (CAN) ac ar swyddogaeth Asiantaeth yr Amgylchedd wrth weinyddu grantiau bychain. Y nod yw peidio â bod yn rhy argymhellol fel y gall atebion arloesol ddod i'r amlwg – ond byddwn yn annog cydweithredu wrth gyflawni'r prosiect.

25. ***Gweinyddu*** - Dylid canoli'r weinyddiaeth ariannol sy'n gysylltiedig â chyllid partneriaethau mewn uned sengl er mwyn lleihau costau (fel y cafodd ei awgrymu gan adroddiad diweddar ar ddyfarnu grantiau o Swyddfa Archwilio Cymru a Phwyllgor Craffu'r Cynulliad Cenedlaethol). Bydd canoli o'r fath yn anelu at gynnwys yr amrywiaeth mewn gofynion ac anghenion cynlluniau gwahanol sydd o fewn cwmpas Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd y prosesau presennol yn cael eu symleiddio. Bydd gweinyddiaeth ganolog yn offeryn hanfodol mewn tracio gweithgarwch yn unol â'r 'offer' gwahanol a ddefnyddiwyd i ffurfioli perthnasau cyllid partneriaethau, sef llythyrau swyddog grantiau (yn bennaf ar gyfer Cyllid Cystadleuol) a memoranda o gytundeb (MoG) (yn bennaf ar gyfer partneriaethau Cydweithio).

26. ***Materion ynghylch Sicrwydd Prosiectau*** - Bydd sicrwydd prosiectau yn cael ei integreiddio i gyllid partneriaethau. Bydd dyfarniadau dros £50,000 yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Sicrwydd Prosiectau neu'n amodol ar ba baramedrau bynnag y mae'r Bwrdd yn eu gosod.

27. ***Integreiddio themâu trawsbynciol*** – Gellir integreiddio'r materion trawsbynciol canlynol i gyllid partneriaethau:

- Cydraddoldeb
- Yr Iaith Gymraeg
- Cynaliadwyedd yr amgylchedd
- Tlodi plant.

28. ***Craffu ariannol a risg cymesur*** – Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio'r ymarfer gorau o gymesuredd a dyfeisio cynllun pwrpasol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru. Dylai'r cynllun adlewyrchu'r egwyddor:

> 'Dylai cyrff cyllido geisio lleihau'r baich monitro ac arolygu ar dderbynwyr y cronfeydd at lefel sy'n gymesur â'r lefel o gyllid a risg, ac sy'n cynnal rheolaeth gywir o arian cyhoeddus' (Trysorlys EM, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Swyddfa Masnach y Llywodraeth, *Improving Financial Relationships with the Third Sector: Guidance to Funders and Purchasers*, Trysorlys EM, 2006).

29. ***Dewis Partneriaid -*** Bydd dewis Partneriaid ar gyfer cydweithio ar sail meini prawf teg, gwrthrychol a dogfennol. Bydd systemau'n cael eu cynllunio i sicrhau nad oes modd osgoi unrhyw gystadleuaeth digyfiawnhad.

30. ***Rheolwyr cyfrifon a'r Grŵp Ymarferwyr*** – Bydd Grŵp ymarferwyr ffurfiol yn cael ei sefydlu yn Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd hwn yn gweithredu fel rhwydwaith i gydgrynhoi ac ymestyn arbenigedd a chydgysylltiad drwy'r sefydliad. Bydd aelodau'r Grŵp Ymarferwyr yn gweithredu fel Rheolwyr Cyfrifon ar gyfer pob sefydliad sy'n cael eu cyllido.

31. ***Cydgysylltu gyda chyllid Llywodraeth Cymru*** - Bydd Rheolwyr cyfrifon yn gallu darparu Llywodraeth Cymru gyda darlun llawn o ba ddyfarniadau cyllid sy'n cael eu gwneud i bob sefydliad, ar gyfer pa bwrpas a beth yw'r allbynnau disgwyliedig (neu sydd wedi'u cyflawni) er mwyn sicrhau eglurdeb ac osgoi unrhyw faterion posibl o dalu ddwywaith am yr un peth. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn sicrhau bod cyllido o fewn ambarél Rheolaeth Cyfoeth Naturiol yn alinio gydag amcanion Cronfa Natur Llywodraeth Cymru.

32. **Cydgysylltu gyda chyllidwyr eraill yng Nghymru** – Bydd angen gweithredu Strategaeth Cyllid Partneriaethau Cyfoeth Naturiol Cymru a amlinellwyd yn y papur hwn er mwyn mwyhau aliniad a pheidio â dyblygu rhwng ei gyllid a chyllidwyr eraill.

Y Camau Nesaf

33. ***Rownd Gyllido Gystadleuol*** –Bydd yr amserlen fel a ganlyn:

- Mai 2014: Galw am syniadau drwy wahoddiad agored ar gyfer atebion cyflawni sy'n cysylltu â Chynlluniau Corfforaethol a Busnes Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Mehefin 2014: Cynnal gweithdai i adeiladu ar hyn.
- Yn hwyr ym mis Hydref 2014: Derbyn ymatebion terfynol.
- Tachwedd - Rhagfyr: Dadansoddi'r ymatebion (sgorio). Defnyddio diwydrwydd dyladwy.
- Diwedd Rhagfyr 2014: Cyhoeddi argymhellion terfynol ar gyllido.
- Prosiectau i redeg rhwng Ebrill 2015 a diwedd Mawrth 2017.

34. ***Partneriaethau Cydweithio*** - Bydd y mathau hyn o bartneriaeth yn cael eu cyllido o gyllidebau grant presennol sydd eisoes wedi'u dyrannu i dimau gweithredol. Yn seiliedig ar y dadansoddiad yng ngholofnau 4-7 o Atodiad 3, bydd ymgynghoriad mewnol yn cael ei wneud o adrannau Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn adnabod cynlluniau gweithredu sy'n dod i'r amlwg, a'r bwriad i ddefnyddio gweithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni amcanion Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd paratoadau ar gyfer hyn yn derbyn gwybodaeth drwy drafodaeth bellach gyda Llywodraeth Cymru dros gyllid craidd a chyllid prosiectau. Bydd pob partneriaeth cydweithio ffurfiol yn cael ei wneud drwy dîm cyllid canolog er mwyn sicrhau bod cydlyniad a gwybodaeth gyflawn ar gael. Yn ychwanegol, bydd cyfnod cyllido am uchafswm o dair blynedd yn cael ei ddefnyddio.

35. ***Camau Eraill:***

- Gweithredu Cynllun Cyfathrebu.
- Trefnu seminarau ymwybyddiaeth ar gyfer staff perthnasol.
- Datblygu systemau i fonitro cynnydd ar lefel 'rhaglen' cyllid partneriaethau.

- Sefydlu grŵp i edrych ar y cynigion ar gyfer cyllid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru er mwyn osgoi dyblygu.
- Sefydlu proses trwy'r hyn mae tanwariant mewn cyllidebau adrannol yn dod i dîm canolog er mwyn ystyried blaenoriaethau. Bydd hyn yn adeiladu cyswllt i ddull y rhaglen ar gyfer y cynllun busnes.
- Cytuno â Llywodraeth Cymru sut mae'r rhaniad rhwng cyllid craidd a chyllid prosiect i'w wneud yn weithredol (gweler paragraff 13 uchod).

Risgiau

36. Mae Atodiad 2 yn amlinellu dadansoddiad risg o fabwysiadu strategaeth Cyllid Partneriaethau.

Goblygiadau Ariannol

37. Bydd dull Cyllid Partneriaethau Cyfoeth Naturiol Cymru yn cychwyn ar 01/04/2015.

38. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyllideb o oddeutu £3.8m ar gyfer grantiau partneriaethau strategol yn 2014. Mae hyn eisoes wedi cael ei ddyrannu oherwydd ymrwymiadau a etifeddwyd gan y cyrff etifeddol nad ydyn nhw wedi cael eu heffeithio gan y dull newydd o Gyllid Partneriaethau.

39. Ni fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud unrhyw grantiau partneriaeth strategol na chynigion cyllid cystadleuol newydd yn 2014/15, fel y cafodd ei gytuno a'i gyfathrebu ym mis Hydref 2013.

40. O Ebrill 2015, bydd y gyllideb flynyddol ar gyfer yr holl gyllid partneriaethau yn lleihau yn unol ag unrhyw leihad yng nghyllideb ddangosol Cyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl y bydd yn gronfa sy'n gyfatebol â'r lefelau presennol.

41. Er na fyddwn yn cynnal cronfa gystadleuol ar gyfer 2014/15, rydym yn rhagweld darparu cronfa o oddeutu £1.5m - £2m y flwyddyn fel rhan o'r dull newydd o Gyllid Partneriaethau.

Cyfathrebu

42. Mae lledaenu gwybodaeth i bartneriaid y gorffennol, y presennol a'r rhai posibl yn hanfodol a dyma pam y cytunwyd ar gynllun cyfathrebu llawn. Y cam cyntaf, os cytunir ar y Papur Bwrdd hwn, yw sicrhau ein partneriaid y byddwn yn sefydliad gyda chyllid partneriaethau, ond er hynny gyda thelerau gwahanol tuag at hyn yr ydym yn ei gyllido a sut y byddwn yn ei wneud.

43. Rydym wedi cwblhau proses adnabod rhanddeiliaid a byddwn yn rhannu unrhyw wybodaeth mewn ffordd amserol.

44. Ymysg y pwyntiau allweddol y byddwn yn awr yn eu pwysleisio:
- Byddwn yn sefydliad cyllido gyda chyllideb gymedrol dros y tair blynedd nesaf.
- Mae gennym gyfres o egwyddorion a fydd yn llywio ein gwaith a'n prosesau meddwl.
- Bydd cyllid partneriaethau yn cael ei gyflawni mewn dwy ffordd – drwy gydweithio strategol a thrwy rowndiau cystadleuol tebyg i Gronfa Natur Llywodraeth Cymru a CAN.

- Byddwn yn cymryd dull seiliedig ar risg tuag at y broses gyllido a byddwn yn anelu at symleiddio'r broses lle gallwn.
- Bydd gennym isafswm lefel gyllido o £10k.
- Bydd disgwyliad y bydd y sefydliad sy'n cael ei gyllido yn rhoi cyllid cyfatebol i gyfraniad Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Byddwn yn darparu cyllid ar gyfer prosiectau neu ar gyfer cyflawni uniongyrchol yn unig. Llywodraeth Cymru fydd yn darparu unrhyw gyllid craidd.

45. Fel rydym yn datblygu ein blaenoriaethau cyllido a chael gwell dealltwriaeth o sut y byddwn yn strwythuro ein proses, byddwn yn datblygu rhaglen sy'n ymgysylltu mwy (yn hytrach na chyfathrebu negeseuon yn unig) fel bod partneriaid posibl yn deall sut y byddwn yn gweithio.

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

46. Bydd materion cydraddoldeb yn cael eu hintegreiddio fel un o'r themâu trawsbynciol wrth weithredu dull Cyllid Partneriaethau gan Cyfoeth Naturiol Cymru (gweler y nodyn uchod mewn perthynas â'r meini prawf ar gyfer asesu).

Mynegai Atodiadau

1. Amcangyfrif o werth y cyllid i bartneriaid allanol
2. Dadansoddiad risg
3. Meysydd gwaith strategol ar gyfer cyllid partneriaethau wedi'u halinio â chynllun busnes Cyfoeth Naturiol Cymru.